YSGOL HAFAN Y MÔR
Heywood Lane,
Dinbych y Pysgod/ Tenby,
SA70 8BZ
☎ 01834-843248

admin.ysgolhafanymor@pembrokeshire.gov.uk

Ysgol Hafan y Mor, Dinbych y Pysgod ysgolhafanymor.cymru @hafanymortenby

8.2.2019

Sêr yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Beatrix, Emme, Bella C, Noah P, Caleb a Teela am fod yn sêr yr wythnos hon – 8.2.19!

Dydd Miwsig Cymru

Cawsom ddiwrnod arbennig yn dathlu cerddoriaeth Cymraeg – gweithgareddau yn y bore a disgo tawel yn ystod y prynhawn. Hoffem ddiolch i Dafydd Vaughan, Menter Iaith Sir Benfro am y gerddoriaeth ac i Mr Gary Phillips, Corryn Du am y clustffonau! Cafodd y disgyblion amser bendigedig ac roedd pob un ohonynt yn edrych fel seren bop gwych!

Gwersi Cerddoriaeth

Diolch i'r rhai sydd wedi talu cyfraniadau tuag at y gwersi cerddoriaeth. Hoffem gael yr holl arian erbyn 22.2.19.

Trwynau Coch

Rydym yn gwerthu trwynau coch eto eleni er mwyn cefnogi'r elusen 'Comic Relief'. Bydd y trwynau coch ar werth ar ddiwedd dydd ysgol neu ar gael o'r dderbynfa. Pris: £1.25. Lledwch y gair!

Blaendal Llangrannog

Mi fydd digyblion bl. 3 a 4 yn mynd ar daith preswyl i Langrannog gyda Mr Thomas a Miss Davies o Fawrth 25ain hyd at Fawrth 27ain. Os hoffech i'ch plentyn fynychu'r daith bydd angen sicrhau ein bod yn derbyn blaendal o £50 erbyn dydd Gwener nesaf, Chwefror 15fed.

Cyngor Llyfrau

Mi fydd Carys Monaghan, Cyngor Llyfrau yn cynnal gweithdy llyfrau ar dydd Mawrth, Chwefror 19eg i rieni dosbarth Pysgod Chwim (Mrs Griffiths) am 11.45yb ac yna am 3yp i rieni gyda phlant yn Cylch Meithrin Tonnau Bach a dosbarth Ser y Môr (Mrs Phillips). Yn ystod y gweithdy mi fydd Carys yn medru dangos llyfrau sy'n addas i oed eich plentyn a thrafod unrhyw gwestiynau sydd gennych. Mi fydd Mrs Griffiths a Mrs Phillips yn bresennol felly gallwch drafod gyda nhw hefyd.

Eisteddfod Ysgol a Dydd Gwyl Dewi

Mae Mrs Phillips wedi sicrhau bod darnau llefaru a canu gyda phob disgybl Bl.2-6. A wnewch chi geisio sicrhau bod eich plentyn yn ymarfer adref. Mae cerddoriaeth sy'n cydfynd gyda'r darnau canu ar HWB eich plentyn yn y ffeil sydd wedi'i rhannu felly, gallant wrando wrth ymarfer y geiriau.

Byddwn yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi ar Chwefror 22ain eleni. Gofynnwn yn garedig i bob plentyn wisgo dillad traddodiadol Cymreig neu grys rygbi ar gyfer y diwrnod.
Byddwn yn cynnal cyngerdd byr i rieni Meithrin, Derbyn a Bl.1 am 10 o'r gloch y bore ac yn dilyn hynny mi fydd Eisteddfod yr ysgol yn dechrau am 1yp i ddisgyblion fl. 3 – 6. Mae croeso i rieni neu aelodau teulu i fynychu'r Eisteddfod.
Mi fydd cystadlaethau celf a chrefft a choginio i ddisgyblion o flaen llaw. Bydd rhagor o wybodaeth am y rhain yn dod atoch trwy lyfrau dysgu adref eich plentyn Bl. 1 – 6. Mae croeso hefyd i ddisgyblion chwarae offeryn yn ystod yr Eisteddfod ysgol. Bydd pawb sy'n cystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth yn ennill rhwng 50 – 500 pwynt i'w tŷ!

Siarter Iaith Gymraeg

Fel rhan o'n siarter iaith Gymraeg rydym yn annog y disgyblion i wrando ar gerddoriaeth Gymreig a dysgu rhai caneuon Cymraeg. Mae Yr Eira yn fand Roc Cymreig o Ogledd Cymru. Daeth y band yn adnabyddus yn y Sîn Roc Gymraeg yn sgîl y gân 'Elin', a recordiwyd fel sesiwn i BBC Radio Cymru yn 2013.

Un o lwyddiannau mwyaf y band hyd yma oedd sicrhau lle ar restr bandiau prosiect Gorwelion y BBC yn 2014.Drwy hynny, bu iddynt chwarae ar lwyfan *BBC Introducing* yng ngŵyl T in the Park, un o wyliau cerddorol mwyaf y Deyrnas Unedig, y flwyddyn honno. * Cofiwch nad ydym yn gyfrifol am gynnwys fideos.

https://www.youtube.com/watch?v=OWVCnxjzbsA

https://www.youtube.com/watch?v=XpRRcUVh7og

Byddwn hefyd yn cyflwyno idiom y mis:
Idiom y mis hwn yw 'Fel pin mewn papur'

Defnyddio technoleg trwy gyfrwng y Gymraeg
Er mwyn hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg, mae taflenni apps defnyddiol wedi'u cynnwys ar waelod y bwletin wythnosol.

Diolch am eich cyd-weithrediad a'ch cefnogaeth

V Griffiths

Mrs Griffiths
Pennaeth

Wythnos yn cychwyn: 11.02.19			Week commencing: 11.02.19	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau			Events and News Bulletin	
Dyddiad	**Digwyddiad**		**Date**	**Event**
11.02.19 **Dydd Llun**	**Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs Hughes a Mr Thomas** **Rhaid** i **bob** plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.		11.02.19 **Monday**	**PE lessons for Mrs Hughes & Mr Thomas' class** **All** pupils **must** bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
13.02.19 **Dydd Mercher**	**Clwb Cwtsh (10-11.15)** – cwrs blasu Cymraeg sy'n llawn hwyl a sbri i rieni a phlant cyn oed ysgol. Pob bore dydd Mercher am 8 wythnos.		13.02.19 **Wednesday**	**Clwb Cwtsh (10-11.15)** – is a fun-filled eight-week taster programme every Wednesday morning, focusing on speaking Welsh with pre-school aged children.
13.02.19 **Dydd Mercher**	**Mercher Mwdlyd** –Cofiwch ddillad allanol i'ch plentyn heddiw os ydynt yn nosbarth **Sêr y Môr, Cregyn neu Ynys Bŷr**		13.02.19 **Wednesday**	**Muddy Wednesday** – Please remember that your child requires outdoor clothes today if he/she is in **Sêr y Môr, Cregyn or Ynys Bŷr class**
13.02.19 **Mercher**	**Clybiau ar ôl ysgol (3.05 – 4.15yp)** Clwb Chwaraeon (Sports) – Bl. 3&4 Clwb Crefft (Craft) – Bl. 2 Urdd - Bl. 5&6 **Clwb Coginio (Cooking Club) – Yrs. 3 & 4 finishes at 4.30pm**		13.02.19 **Wednesday**	**After school clubs (3.05 – 4.15yp)** Clwb Chwaraeon (Sports) – Yr. 3&4 Clwb Crefft (Craft) – Yr. 2 Urdd - Yr. 5&6 **Clwb Coginio (Cooking Club) – Yrs. 3 & 4 finishes at 4.30pm**
14.02.19 **Dydd Iau**	**Bore Iau Mwdlyd** –Cofiwch ddillad allanol i'ch plentyn heddiw os ydynt yn nosbarth **Pysgod Chwim (Mrs Griffiths)**		14.02.19 **Thursday**	**Muddy Thursday morning** – Please remember that your child requires outdoor clothes today if he/she is in **Pysgod Chwim class (Mrs Griffiths)**
14.02.19 **Dydd Iau**	**Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs King a Mrs Walters (Bl. 1 a 2)** **Rhaid** i **bob** plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.		14.02.19 **Thursday**	**PE lessons for Mrs King & Mrs Walters' class (Year 1 & 2)** **All** pupils **must** bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
15.02.19 **Dydd Gwener**	**Gwersi Ymarfer corff i ddosbarth Mrs Phillips (Sêr y Môr) a dosbarth Mrs Griffiths (Pysgod Chwim)** **Rhaid** i **bob** plentyn yn **Sêr y Môr** ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.		15.02.19 **Friday**	**PE lessons for Mrs Phillips' class (Sêr y Môr) & Pysgod Chwim, Mrs Griffiths' class** **All** pupils in **Sêr y Môr** **must** bring PE kit and suitable footwear on the days that they have PE lessons.
15.02.19 **Dydd Gwener**	**Gwersi nofio** i ddosbarth Ynys Bŷr (Mrs King)		15.02.19 **Friday**	**Swimming lessons** for Ynys Bŷr class (Mrs King)

Gwybodaeth – Information

Presenoldeb wythnos yn gorffen: 08.02.19 – 91.95% *(Targed yr Ysgol: 95.1%)*

Attendance week ending: 08.02.19 – 91.95% *(School's attendance target: 95.1%)*

Reg

Reg	Authorised Absence	Attended
Cregyn	4.55	95.45
Cychod	10	90
Pysgod Chwim	13.66	86.34
Ser Y Mor	7.42	92.58
Ynys Byr	4.76	95.24
Yr Harbwr	8.89	91.11

Mae ffigwr presenoldeb yr wythnos hon ar gyfer yr ysgol gyfan yn siomedig gan ei fod o dan darged yr ysgol.

*** Presenoldeb disgyblion oed ysgol – 92.68%**

Gwybodaeth ynglŷn â dyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)

Hanner Tymor	25.02.2019 – 01.03.2019
HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)	12.04.2019
Gwyliau Pasg	15.04.2019 – 26.04.2019
Gwŷl y Banc (ysgol ar gau)	06.05.2019
Hanner Tymor	27.05.2019 – 31.05.2019
HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion)	22.07.2019

GWERSI ADDYSG GORFFOROL

Noder os gwelwch yn dda, rhaid i **bob** plentyn ddod â chit ymarfer corff ac esgidiau priodol er mwyn cymryd rhan yng ngwersi addysg gorfforol.

Dosbarth Mr Thomas (Cychod) + Mrs Hughes' (Harbwr) Class -	Dydd Llun / Monday
Dosbarth Mrs King (Ynys Bŷr) + Mrs Walters (Cregyn) Class -	Dydd Iau / Thursday
Dosbarth Mrs Phillips (Sêr y Môr) Class -	Dydd Gwener / Friday
*Dosbarth Mrs Griffiths (Pysgod Chwim) -	Dydd Gwener / Friday

**Nid oes angen iddynt fod yn cit ymarfer corff ffurfiol. Gall plant wisgo dillad hamddenol a treinars ar y dydd. / These pupils do not need to wear formal PE kit. Children can wear trainers and appropriate clothing on the day.*

INCLEMENT WEATHER

I would like to remind all parents of the procedures for inclement weather and school closure. Updates relating to school closures or other alerts can be found on the following pages:- The Council's website at:- www.pembrokeshire.gov.uk/alerts

You can register for alerts by creating your own account by using the following web address: https://myaccount.pembrokeshire.gov.uk/

The Council's Twitter and Facebook pages will also be updated with alerts:-
www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil
www.twitter.com/Pembrokeshire

Dyddiadau o flaen llaw			Future dates	
Bwletin Newyddion a Digwyddiadau			Events and News Bulletin	
Dyddiad	**Digwyddiad**		**Date**	**Event**
15.2.19	**Blaen dal Llangrannog £50 erbyn heddiw os gwelwch yn dda.**		15.2.19	**Llangrannog deposit of £50 to be sent into school by today please.**
19.2.19	**Gweithdy Cyngor Llyfrau** – rhieni Pysgod Chwim (Mrs Griffiths) 11.45yb. Rhieni Sêr y Môr (Mrs Phillips) a Cylch Meithrin Tonnau Bach 3yp.		19.2.19	**Welsh Book Council Workshop** – parents with children in dosbarth Pysgod Chwim (Mrs Griffiths) 11.45am. Parents with children in dosbarth Sêr y Môr (Mrs Phillips) and Cylch Meithrin Tonnau Bach 3pm.
22.2.19	**Cyngerdd Meithrin, Derbyn a Bl.1 (bore)** **Eistedfod Ysgol Bl. 2 -6 (prynhawn)** *Gofynnwn yn garedig i bob disgybl i wisgo dillad traddodiadol Gymreig neu grys rygbi Cymru am y dydd. Byddwn yn dathlu Dydd Gwyl Dewi heddiw!*		22.2.19	**Nursery, Reception & Yr.1 concert (am)** **School Eisteddfod Yrs. 2 – 6 (pm)** *We kindly ask that all pupils wear the traditional Welsh costume or a Welsh rugby shirt for the day. We will be celebrating St David's Day today!*
18.3.19	**Eisteddfod Gylch**		18.3.19	**Area Eisteddfod**
30.3.19	**Eisteddfod Sir**		30.3.19	**County Eisteddfod**
25.3.19 – 27.3.19	**Taith breswyl disgyblion bl. 3 a 4 i Langrannog.** *Mr Thomas a Miss Davies bydd yr aelodau o staff sy'n mynychu.*		25.3.19 – 27.3.19	**Yrs. 3 + 4 trip to Llangrannog.** *Mr Thomas and Miss Davies will be the members of staff attending.*

Dyddiad newydd / New Date

Apiau a Gwefannau Defnyddiol /Useful Apps and Websites

Apiau addas i'r Cyfnod Sylfaen / Suitable apps for the Foundation Phase.

Tric a Chlic	Llyfrau Magi Ann	Cyfri gyda Cyw	Cyw a'r Wyddor	Daisy the Dino
Alun yr Arth	Beebot	Celf gyda Sam	Puppet Pals	Apiau arall Cyw
Llythrennau (Big Clic)	Rhifedd (Big Clic)	Dilynwch ni ar Drydar Follow us on Twitter @hafanymortenby		

Apiau addas i Gyfnod Allweddol 2 / Suitable Apps for Key Stage 2

Pyramid	Ap Treiglo	Llawysgrifen (Big Clic)	Ap Gwilym	Math Duel
Stwnsh	Guto Nyth Bran	Brwydr Croeseiriau	Prezi	Nessy
Garage Band	iMovie	HWB	Purple Mash	S4C & Clic